

Cyngor Sir Fynwy

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Sir Fynwy 2018-2033

ARCHWILIAD

Sesiwn Gwrandawriad 5 – Tai Fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr

Dydd Mercher 16^{eg} Medi 2026

Cyf.	Pwynt Gweithredu	Dyddiad Cyflawni	Ymateb y Cyngor
AP5/1	Y Cyngor i weithredu'r diwygiadau a nodir yn ED29 'Atodlen y Newidiadau Arfaethedig CDLIN Adneuo (Awst 2026)' oni bai eu bod wedi'u diwygio fel arall gan Bwyntiau Gweithredu penodol		
AP5/2	Y Cyngor i gyflwyno copi o'r Canllawiau Hyfywedd a gynhyrchwyd ar ran Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.	25.09.2026	Copi wedi'i gyflwyno – dogfen AP5.2.
AP5/3	Y Cyngor i ddiwygio'r ffigwr darpariaeth tai fforddiadwy (AH) ym Mholisi S7 i adlewyrchu'r ffigwr darpariaeth AH diweddaraf ym mhapur cefndir Tai Ebrill 2026 (M2/1a).	25.09.2026	Diwygio brawddeg gyntaf Polisi Strategol S7 i ddarllen:. <i>'Y targed cartrefi fforddiadwy ar gyfer cyfnod y Cynllun 2018 – 2033 yw 1,707 – 2,121 o gartrefi.'</i> Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.

AP5/4	Cyngor i ddiwygio'r paragraff olaf o Bolisi S7 i ddarllen: '... bodloni polisi ac arweiniad cenedlaethol...'		Mae'r cyfeiriad at 'canllawiau polisi cenedlaethol' wedi'i ddileu o baragraff olaf Polisi S7 gan ei fod yn dyblygu gofynion polisi cenedlaethol ac felly ystyrir ei fod yn ddiangen. Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP5/5	Y Cyngor i adolygu a diwygio geiriad paragraff olaf Polisi S7 yn unol â'r testun ategol ym mharagraff 13.1.13 y CDLIN.	25.09.2026	Mae'r Cyngor wedi adolygu'r geiriad perthnasol ac yn cynnig diwygio paragraff olaf Polisi S7 i ddarllen: <i>'Ni ddylid isrannu, graddio neu leihau dwysedd safleoedd mewn ymgais i osgoi darparu cartrefi fforddiadwy ar y safle.'</i> Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP5/6	Y Cyngor i adolygu Polisi S7 ac ystyried a oes angen cynnwys paragraffau 13.1.11 a 13.1.12 o'r testun ategol ynddo.	25.09.2026	Mae'r Cyngor wedi adolygu'r geiriad perthnasol ac yn cynnig y canlynol: Cynnwys paragraff ychwanegol ym Mholisi S7 ar ôl pwynt v) i ddarllen: <i>'Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd darparu tai fforddiadwy oddi ar y safle neu daliad yn lle tai fforddiadwy ar y safle yn cael ei ystyried. Ni fydd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i safleoedd a ddyrannwyd.'</i> Diwygio geiriad dwy frawddeg gyntaf paragraff 13.1.11 fel a ganlyn i roi eglurder pellach ar ddull y Cyngor: <i>'Bydd y Cyngor yn ceisio darparu tai fforddiadwy ar y safle. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd darpariaeth oddi ar y safle yn cael ei ystyried.'</i>

			<i>Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft mewn sefyllfaoedd lle na ellir sicrhau rheolaeth y tai fforddiadwy yn effeithiol, er enghraifft cynlluniau tai lloches ymddeol. Ni fydd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i safleoedd a ddyrannwyd.'</i> Dileu'r geiriad a gynhwysir ym mrawddeg gyntaf paragraff 13.1.12 er mwyn osgoi amwysedd a sicrhau cysondeb â pharagraff 13.1.11 a Pholisi S7: <i>'Yn yr amgylchiadau eithriadol lle na ystyrir bod darpariaeth ar y safle yn briodol ac na ellir darparu unedau oddi ar y safle oherwydd nad oes safle amgen ar gael, bydd y Cyngor yn ystyried derbyn taliad cyfraniad tai fforddiadwy yn lle darparu tai fforddiadwy ar y safle.'</i> Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP5/7	Y Cyngor i ddarparu tystiolaeth i gefnogi paragraff 55.2 o Ddatganiad Gwrandawriad M5/1 mewn perthynas â chyflenwi safleoedd eithriad AH yn y gorffennol.	25.09.2026	Mae dogfen A5.7 yn darparu tabl o gynlluniau eithrio tai fforddiadwy a gymeradwywyd yn unol â Pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig H7 - Tai Fforddiadwy Eithriadau Gwledig, dros y cyfnod 2014 - 2026. Cyflwynir hon fel dogfen ar wahân.
AP5/8	Y Cyngor i adolygu paragraff agoriadol Polisi H9 mewn perthynas ag 'Ystyriaeth ffafriol....' Gwneud yn glir y bydd cynigion yn cael eu caniatáu lle maent yn bodloni meini prawf y polisi.	25.09.2026	Mae'r Cyngor wedi adolygu'r geiriad ac yn cynnig diwygio paragraff agoriadol Polisi H9 i ddarllen: <i>Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd eithriadol ar gyfer tai fforddiadwy 100% sy'n ffinio ag aneddiadau Haen 1, 2, 3 a 4 a nodwyd ym Mholisi Strategol S2 - safleoedd na fyddent fel arall yn cael eu rhyddhau ar gyfer datblygiad preswyl - ar yr amod bod yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:</i> Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.

AP5/9	Cyngor i ystyried a oes angen cynnwys cyfeiriad at dai a arweinir gan y gymuned naill ai yn nhestun ategol Polisi S7 neu Bolisi H9.	25.09.2026	Mae'r Cyngor wedi ystyried hyn ac yn cadw'r safbwynt bod y mater hwn wedi'i nodi'n glir ym mharagraffau 4.2.26 a 4.2.27 o Bolisi Cynllunio Cymru. Felly, ni ystyrir bod angen cyfeirio'n uniongyrchol at y math hwn o dai ym Mholisi Strategol S7 neu'r testun ategol.
AP5/10	Bydd y Cyngor yn darparu cynlluniau sy'n dangos pob safle awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr – boed yn rhai presennol neu arfaethedig, ac yn nwylo'r sector cyhoeddus neu breifat – yng nghyd-destun aneddiadau presennol: a. ledled y sir; a b. mewn perthynas â'r ardal sy'n agos at y dyraniad arfaethedig CDLIN.	25.09.2026	Mae dogfen AP5.10 yn nodi rhestr o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Fynwy i gynnwys y rhai a gymeradwywyd ac sy'n aros am eu hystyried, ynghyd â dyraniad arfaethedig y CDLIN. Cyflwynwyd hon fel dogfen ar wahân.
AP5/11	Y Cyngor i gyflwyno copïau o adroddiadau'r Cabinet/craffu a oedd yn ystyried effeithiau safle-benodol safleoedd ymgeisiol Sipsiwn a Theithwyr.	25.09.2026	Mae'r dogfennau perthnasol wedi'u cyflwyno. Nodwch hefyd y gellir gweld LVIA ac Atodiadau LVIA ar gyfer Safle ehangach Bradbury Farm a Oak Grove Farm yn y Dogfennau Cyflwyno canlynol SD393 ac SD394 yn y drefn honno.
AP5/12	Y Cyngor i ddileu 'yn unol â Chylchlythyr 005/2018' o faen prawf a) o Bolisi GT1		Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP5/13	Cyngor i ddileu 'uchel' o faen prawf e) o Bolisi GT1.		Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP5/14	Y Cyngor i ddiwygio 4 ^{ydd} llinell paragraff 15.1.2 y CDLIN i gyfeirio at 'Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr'.		Diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Mân Newidiadau Golygu.